# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 6 Rhif 10 Yn rhad ac am ddim Ionawr 2026





### Cyngerdd Carolau yn Eglwys Sant Iago, Abertawe

Am yr ail dro dwi i wedi trefnu Cyngerdd Carolau yn eglwys Sant Iago yn Abertawe. Roeddwn i wedi gwneud yr holl waith gaib a rhaw'r llynedd, creu'r llyfrynnau yn cynnwys geiriau 16 o garolau ac wedi penderfynu cynnwys y noson. Hefyd dylunio baner i roi ar y rheilen tu allan i'r eglwys, roedd rhaid cael un newydd wrth gwrs ond dim ond munud o waith oedd newid y dyddiad ar y ffeil.

Y tro yma roeddwn i wedi sylweddoli bod cadw manylion y rhai sydd wedi bod yn y gynulleidfa'n bwysig – wrth gwrs bydden nhw eisiau manylion pob cyngerdd o hyn ymlaen! Creais i gardiau i roi ar bob sedd er mwyn cael manylion y rhai oedd yna am y tro cyntaf a phrynu digon o feiros Bic i fynd efo pob cerdyn. Dydy pawb ddim yn cadw beiro yn eu pocedi.

Ar y diwrnod roeddwn i'n gwybod mod i wedi gwneud popeth ond doedd hynny ddim yn stopio fi rhag poeni - oedd rhywbeth arall alla i wneud? Ro'n i ar bigau drain trwy'r dydd. Erbyn hanner awr wedi pedwar roeddwn i wedi newid i fy siwt ac yn eistedd o flaen y teledu ac yn gobeithio na fyddai'n syrthio i gysgu a cholli'r holl sioe!

Roedd hi'n bwrw glaw pan es i allan ac roedd rhaid rhedeg at y car efo popeth dan fy nghôt, yr un peth pan nes i gyrraedd yr eglwys ond roeddwn i'n gallu parcio yn agos at y drws cefn. Cardiau cyfeiriad a beiro ar bob sedd a gwneud yn siŵr bod pawb oedd yn darllen yn cael rhaglen. Yn fuan iawn roedd aelodau o Gôr Tŷ Tawe yn cyrraedd a thua deg munud wedyn welais i David Lloyd Lewis yn cyrraedd, roeddwn i mor falch o'i weld. Roedd o wedi bod yn Madeira ac i fod i ddod yn ôl ar y dydd Llun ond

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

roedd y tywydd mor wael a'r llain awyr mor fyr doedd ddim un awyren wedi cael codi i'r awyr. Yn dawel bach roeddwn i wedi bod mewn panig. Pam? Wel David oedd un o sêr y sioe!

Mi wnaeth y lle lenwi yn gyflym ac roedd yn amser ddechrau, roeddwn i'n eistedd o flaen y pwlpid wrth ochr Y Parchedig John Walters ac roedd yn wych gweld gymaint o bobl yn llenwi canol yr eglwys.

Cawson ni bump o ddarlleniadau am y Geni, saith o garolau a chyfraniadau gan David Lewis a Chôr Tŷ Tawe. Roedd David yn canu efo Opera North tan iddo fo ymddeol a symud yn ôl i Gymru tair blynedd yn ôl ac yn hapus iawn bod o wedi gwneud - ninnau hefyd! Mae ganddo lais bariton cryf a chanodd Aria allan o Oratorio Nadolig gan J. S. Bach, emyn gan Morfydd Owen, geiriau gan William Williams Pantycelyn a chyfieithiad o Nella Fantasia gan Ennio Morriconi. A phan dw i'n dweud cyfieithiad mae hynny'n golygu ei gyfieithiad o'r Eidaleg i'r Gymraeg.

Mae Côr Tŷ Tawe wedi bodoli ers o leiaf Gorffennaf 2008 a heb gael llawer o segur ers hynny mae'n siŵr. Mae ganddyn nhw fath o gontract i gloi'r flwyddyn i Gymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt. Ffordd wych i ddod â blwyddyn lewyrchus i ben! I ni roedden nhw'n canu dwy garol ac wedyn can traddodiadol o'r Plygain.




Côr Tŷ Tawe

Roedd y gynulleidfa yn canu'n gryf hefyd, roedd yn hawdd dychmygu'r to yn bownsio i fyny ac i lawr efo'r holl ganu - canu o'r galon!

A fi? Wel roeddwn i rywle yn y cymylau ac yn methu canolbwyntio felly os oeddech chi wedi cael sgwrs efo fi a doedd ddim yn gwneud synnwyr - dyna pam. Diolch i bawb am gyfrannu eu doniau a chreu noson arbennig!!

## Diwrnod Santes Dwynwen
## Ionawr 25ain



Cofiwch ddathlu diwrnod Santes Dwynwen, cyfle i ddangos eich cariad at y person sydd yn bwysig i chi. Neu, os dych chi eisio tynnu sylw rhywun b  od chi eisiau bod yn rhan o'ch bywyd, dyma eich cyfle. Cofiwch fod cardiau ar gael yn eich siop lyfrau Cymraeg lleol.

Darllenwch beth mae Jay wedi ysgrifennu

## Hebot ti

gan Jay Ramsurrum

Y dydd edrychais yn dy lygaid
Gwelais gefnfor o gariad.
Ni wnest ti roi dewis i mi
Syrthiais a syrthiais yn ddwfn mewn cariad.
Beth fydda i hebot ti?
Yr wyf yn gyflawn pan fydda'i 'da ti.
Rwyt ti'n rhoi ystyr i fy mywyd.
Ti yw fy heulwen
Gyda gwên
Rwyt ti'n codi fy enaid blinedig
Rwyt ti'n lleddfu fy ngofid
Gyda dy gyffyrddiad tyner
Ti'n codi fy ngobeithion
Ti'n lladd fy ofnau
Cusan melys
ac yr wyf yn nef y nefoedd.
Beth fydda i hebot ti?
Dim byd ond enaid coll ac unig.
Gyda thi yr wyf yn berl
Mewn cefnfor o gariad pur.

Diolch Jay

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

# Partïon Nadolig

gan Rob Evans

## Cymdeithas Hanes Bro Ogwr



Yr aelodau yn mwynhau'r canu

Mae amser y Nadolig yn brysur iawn gyda'r holl bartïon, y bwyd, y canu, dal i fyny efo hen ffrindiau a bwyd ardderchog, yn brysur ond yn bleserus hefyd ynte? Roedd tymor y partïon yn dechrau ar nos Lun yr 8fed a pharti Nadolig Cymdeithas Hanes Bro Ogwr. Dydi hi ddim yn bell i Gefn Cribwr o Abertawe ond roedd hi'n bwrw glaw yn drwm pan nes i adael y tŷ a chyn hir roedd rhybudd yn dod i fyny ar y sgrîn i ddweud bod y traffig ar yr M4 i lawr i 12 milltir yr awr. Efo'r tywydd mor ofnadwy â'r sefyllfa efo'r traffig roeddwn i wir yn meddwl am droi yn ôl a mynd adref. Ond na, doeddwn i ddim eisiau colli noson llawn hwyl, crafu'n pennau dros y cwis a'r holl ganu - a bwyta wrth gwrs. Ac roedd y penderfyniad yn iawn, pan nes i gyrraedd yr M4 roedd y traffig yn dechrau symud yn well ac erbyn i mi gyrraedd Margam roedd y ffyrdd yn hollol sych.

Cyrraedd tafarn Y Tair Pedol ac roedd y lle yn llawn yn barod, papurau cwis ar y bwrdd a'r crafu pennau wedi hen ddechrau. Eisteddais ar fwrdd Tom a Rhiannon Price, well os oedd cwis roedd rhaid eistedd efo pobl glyfar ynte? Chwarter awr wedyn roedd hyd yn oed mwy wedi cyrraedd a Richard yn codi i roi croeso i ni ac i ddatgelu'r pleserau oedd o'n blaenau ni. Bwyd ardderchog, band Rod Thomas a'i ffrindiau, y raffl a'r cwis.

Cafodd Rod a'i ffrindiau gorchymyn i fynd trwodd i'r ystafell gefn i ddechrau ar y bwyd a'r gweddill ohonon ni yn gobeithio na fydden nhw'n bwyta'r cwbl lot, annod iawn ganu'n gryf pan dach chi'n llawn dop ynte! Ond mae'r band yn broffesiynol iawn a gweddill ohonon ni yn hapus i ddweud doedd dim llawer ar eu platiau!

Ein tro ni wedyn a, brensiach, am wledd! Roedd pob math o ddanteithion yna a dim digon o le ar y platiau! Nes ymlaen roedden ni'n cael y cyfle i gael 'seconds' ac roedd fel y Bregeth ar y Bryn, cymaint o bobl wedi gwledda a chymaint ar ôl.



Rod Thomas a'i Ffrindiau

Ond dw i'n mynd yn rhy gyflym, cyn i ni gael y 'seconds' roedd rhaid i ni ganu ac amser i Rod Thomas a'i ffrindiau arwain ni drwy ganeuon fel Moliannwn, Ysbryd y Nos, Lleucu Llwyd, Hob y Deri Dando a mwy. Roedd o wedi paratoi taflenni i ni ac roedd yn braf iawn i glywed pawb yn canu ac yn cael hwyl. Pleser Pur!

A rŵan dw i'n gorfod cyfaddef dw i'n meddwl bod yr adroddiad yma allan o drefn braidd ond mae pawb yn mynd yn anghofus pan maen nhw'n heneiddio. Beth bynnag roedd Rod yn gwneud dau set a'r ail set oedd carolau. Dyma ni'n mynd i Fethlehem, Ebol Bychan, Preseb Bethlehem, O Ddeuwch Ffyddloniaid a mwy.

Ysbaid i'r llais a chanolbwyntio ar y cwis ac roedd Richard wedi paratoi cwestiynau er mwyn datgelu faint o bobl oedd wedi cadw manylion y cyfarfodydd yn eu pennau. Dyle hynny wedi bod yn hawdd ond roedden ni i gyd yn llawn bwyd a braidd yn soporiffig. Ia, y bwyd oedd ar fai Richard – onest!

Wedyn y raffl – nes i ddim ennill! Ond doedd hynny ddim yn bwysig o gwbl. Roedd hi wedi bod yn bleser dros ben, cwmni da, bwyd da, canu da, hwyl a llawer o chwerthin.

Nadolig llawen i bawb!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Grŵp Southgate Southgate

Mae gymaint wedi digwydd dros y bythefnos ddiwethaf mae gen i ofn nad ydw i'n cofio'n syth beth sydd wedi digwydd ac ym mha drefn. Yr unig beth dw i'n cofio yw mae wedi bod yn un parti ar ôl y llall.



Grŵp Southgate yn ymlacio

Dw i'n gallu cofio'r un gyntaf achos dw i wedi ysgrifennu amdano yn barod - parti Nadolig Cymdeithas Hanes Bro Ogwr. Wrth lwc mae'r niwl yn clirio a pharti Nadolig y grŵp yn Southgate oedd yr un nesaf - y diwrnod wedyn, dydd Mawrth am 12.30. Diolch byth fy mod i wedi arfer codi'n gynnar. Cinio arbennig o dda a chyfle i ni gymysgu â hen ffrindiau unwaith eto. Carolau wedi cael eu canu a chappella, ond, er hynny roedd pawb mewn tiwn.

## Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt



Deja vu unwaith eto

Yr un nesaf oedd parti Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt, yn yr un caffi ac yn yr un rhan o'r caffi hefyd. Roedd popeth fel 'deja vu all over again' dim ond y pobl oedd wedi newid. Unwaith eto roedden ni'n rhoi cyfle i bawb arall oedd yn y caffi clywed carolau yn cael eu canu yn Gymraeg os oedden nhw eisiau neu beidio. Yn fy marn i roedden nhw'n ffodus dros ben!

Diolch yn fawr i Jamie am edrych ar ein holau ni unwaith eto.

## Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

## Rhaglen 2026




12 Ionawr **Nid dim ond Jemima:**
Merched Abergwaun 1797-1897
Hywel Davies ar Zoom

9 Chwefror **Y Mabinogi—ddoe a heddiw**
Sioned Davies ar Zoom

9 Mawrth **Yn Yml Cerddoriaeth Pop**
Rod Thomas yn y Tair Pedol ac ar Zoom

Yn yr haf mae gennym ni dau Ymweliad, gobeithio i gofio Iolo Morganwg yng Nghefn Cribwr, a'r Gweithdy Haearn ac yn y Bont Faen

11 Mai **Ymweliad yr Hwyr**

8 Mehefin **Ymweliad yr Hwyr**

14 Medi **Iolo Morgannwg a Gwerin Morgannwg**
Allan James yn y Tair Pedol ac ar Zoom

12 Hydref **Pwy oedd Myrddin go iawn?**
David Callander ar Zoom

9 Tachwedd **Richard Burton** Daniel Williams

14 Rhagfyr **Parti Nadolig** Y Tair Pedol

Sgyrsiau yn y Gymraeg am
Hanes a Diwylliant Cymreig
i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg
7-30 yr ail Nos Lun pob mis ar Zoom ac
weithiau yn y Tair Pedol, Cefn Cribwr
www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

# Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!





## Nadolig - Amser i anghofio Iesu Grist?

gan Liz Jowett

Fel plentyn mae'r Nadolig am anrhegion oddi wrth Siôn Corn.

Fel oedolion mewn prifysgol a gwaith mae'r Nadolig am yfed a bwyta a dathlu mewn tafarnau.

Ond fel oedolion hŷn mae Nadolig am Iesu Grist, amser tawel a llawer o gacen Nadolig.

## Adrian Pugh



Adrian ydw i ac rwy'n byw yn Sir Benfro ac ar lefel canolradd dau. Ni allaf gredu ein bod wedi gwneud blwyddyn arall o ddysgu Cymraeg. Rydym wedi archebu twrci gan Thor Local Butchers. Byddwn yn ei goginio ychydig ddyddiau cyn y 25ain a dim ond coginio'r llysiau ar Ddydd Nadolig gan fod hyn yn llai o straen. Bydd ein mab a'n hwyrion yn ymuno â ni ar gyfer cinio Nadolig. Gan fod ein teulu ni ar wasgar ar draws y byd, Hong Kong, Kenya, Canada a gwahanol lefydd yng Nghymru a Lloegr byddwn yn ceisio trefnu galwad fideo i bob un ohonom. Gall fod yn anodd oherwydd y gwahaniaethau amser.



## Nadolig



gan Vicky Edmunds

Pan oeddwn i'n deg oed, prynais anrheg Nadolig i Mam a Dad. Ro'n i'n falch iawn ohono gan fy mod i wedi defnyddio fy arian poced fy hun ac wedi meddwl yn ofalus am yr anrhegion. Ar fore'r Nadolig, rhedais i mewn i'w hystafell wely gyda dwy fag papur yn fy llaw gan weiddi 'Nadolig Llawen!' Prin y gallwn i reoli fy nghyffro.

Edrychodd fy rhieni i mewn i'r bag papur a gwenu. 'Well, dach chi'n mynd i fwyta nhw?' gofynnais i "Ddim i frecwast" atebodd fy nhad yn garedig. Ychydig yn ddiweddarach, eglurodd fod y cacennau hufen yn y bag wedi mynd yn wyrdd a phrin gallon ni reoli ein chwerthin.

## Nadolig Arbennig

gan Joan Cooper



Pan o'n i yn fy arddegau cynnar es i gyda fy Mam a Dad i aros gyda pherthnasau dros y Nadolig. Ar noswyl Nadolig aethon ni i'r eglwys. Roedd hi'n oer ond yn sych ond pan ddaethon ni allan o'r eglwys roedd hi'n bwrw eira. Roedd yn hudolus. Byddaf yn cofio am byth.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Cyfarchion Nadolig 2025

gan Harfi Fudge



Harfi dw i a dw i’n byw yn Nyfnaint efo fy ngwraig Roberta. Wnaethon ni symud yma o ogledd Cymru yn 2022 i fod yn agos at y teulu.

Mae gynnon ni dair merch ac maen nhw’n byw o fewn un awr o’n tŷ ni.  Felly, fel arfer dan ni’n dathlu’r Nadolig gyda’n gilydd yn nhŷ mawr un o’r merched a’i theulu. Beth bynnag, eleni dan ni wedi penderfynu gwneud rhywbeth arall, am newid. Dan ni wedi archebu bwrdd mawr yn nhafarn lleol am hanner dydd ar ddydd Nadolig i gael cinio Nadolig, yno.

Felly, bydd ein merch ddim yn gorfod paratoi llwyth o datws, llysiau ac ati, gosod y bwrdd a rhoi’r twrci yn y popty mewn amser yn ogystal â gweithgareddau teulu. Hefyd, na fydd ddim bwrdd i glirio, llawer o lestri i olchi a dim llanast. Gobeithio, byddai hi’n mwynhau Nadolig yn well!

## Vicky Bowes



Vicky dw i a dw i'n dod o'r Amwythig yn wreiddiol, ond dw i'n byw ar arfordir gorllewin Canada ar hyn o bryd.

Dw i'n gweithio fel artist o'r enw Spring Tide Creations, a dw i mewn band o'r enw Wild Little Spring gyda fy ngŵr. Dyn ni'n chwarae caneuon yn Saesneg ac yn y Gymraeg.

Dw i'n byw mewn coedwig fawr a dw i wrth fy modd gyda phopeth am fyd natur. Hefyd, dw i'n byw ar bwys y môr a dw i'n hoffi mynd ar y badl fwrdd yn aml iawn i chwilio am forfilod a morloi.

Yn y gaeaf, dyn ni'n hala amser yng Nghymru er mwyn ymweld â fy nheulu a cherdded ar lwybr yr arfordir, ac ymarfer fy Nghymraeg wrth gwrs!

## Nadolig Hapus Plentyndod

gan Anne Lloyd



Y Nadolig sy'n sownd yn fy ngof o'm plentyndod? Dw i ddim yn cofio'r flwyddyn, ond cyn i mi fod yn ddeg oed, dw i'n siŵr. Codais i'n gynnar fel pob plentyn arall, a darganfyddais fod raid i fi weithio am fy anrhegion! Doedd hynny ddim yn y cynllun! Llawn cynnwrf, dw i'n gweld fy rhieni ar ben y grisiau, ond dw i ddim yn cael mynd lawr stâr! Yn lle, ro'n i'n gorfod mynd i mewn i'r ystafell ymolchi, ble roedd coeden Nadolig fach, â nodiadau bach arni. Helfa drysor oedd hi, ychydig o hwyl i fi ennill yr anrhegion!

Mae fy ngof i'n ofnadwy'r dyddiau 'ma, a dw i'n methu'n glir â chofio beth oedd y cliwiau i fi eu datrys, ond dw i'n cofio'n iawn sawl rhodd. Yr un lleiaf oedd modrwy insel aur, â blaenlythyren 'A' arni. Mae'r fodrwy'n dal gyda fi, ond nad ydy hi’n ffitio'n dda erbyn hyn - efallai y gallwn i roi hi ar fy mys bach (gyda thipyn bach o saim neu fenyn wrth law, dim ond rhag ofn byddai angen rhywbeth i helpu ei thynnu hi bant!).

A'r rhodd fwyaf? Tedi-bêr porffor enfawr (wel, enfawr i blentyn bach) a dw i ddim yn siŵr sut a guddiwyd fe gan fy rhieni. A dyfalwch beth oedd yr enw a ddewiswyd iddo fe - na, fyddech chi byth yn ei ddyfalu! 'Divi' oedd yr enw - a pham, dw i'n clywed chi'n gofyn, siŵr o fod yn llawn chwilfrydedd. Syml iawn i fod yn onest - cafodd e ei brynu wrth ddefnyddio stampiau 'dividend' y Co-op (roedd fy mam yn arfer gweithio yna). Faint ohonoch chi'n eu cofio nhw, tybed? Ond dw i'n dangos fy oedran nawr! Symud ymalen yn glou. A beth oedd ffawd Divi? Wel, mae e'n byw yn fy atig y dyddiau 'ma, gyda

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

sawl (llawer!) o deganau meddal i gadw cwmni iddo fe.

## Llythyr o Lydaw

gan Mikeal Conq

Gyda 'n grŵp Cymraeg yma, wnaethon ni ganu dwy gân Gymreig yn ystod y noson llawen Llydaweg ar Fest deiz Telethon yma yn fy ardal "Plougin yn ein gwlad Aber"! Fe wnaethon ni weithio yn galed yn Llydaweg yn gwneud crempogau i helpu ymchwil feddygol i wella clefydau genetig. Dyn ni'n gwneud hyn bob blwyddyn ar ddechrau mis Rhagfyr.

Dyn ni wedi blino ond yn hapus nawr! Diolch yn fawr am gyhoeddi ein taith beicio.

## Nadolig yn Ticino

gan Lisa Martinenghi



Shw mae pawb, Lisa dw i, dw i'n dysgu Cymraeg ers tair blynedd a dw i'n byw yn ne Swistir. Mae pedwar ardal ieithyddol yn y Swistir - Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg a Raetoromanaidd (Romansh) a dau ddeg chwe chanton (fel talaith). Enw fy nghanton yw Ticino a dyn ni'n siarad Eidaleg a rhyw dafodiaith Eidalaidd hefyd.

Dw i'n byw mewn pentref bach, ger Lugano. Dw i'n hoff iawn o'r hen draddodiadau Nadoligaidd a dw i'n falch eu bod nhw'n parhau hyd heddiw. Mae llawer o arferion yn debyg i'r rheini yng ngogledd yr Eidal ond gyda blas lleol ein hunan.

Cyn Nadolig, dyn ni'n gwneud Calendr Adfent byw, sef bob noswaith ym mis Rhagfyr mae un teulu'n addurno cornel tu fas y tŷ a darparu aperitivo bach, yn aml gyda gwin cynnes. Dyma gyfle hyfryd i ddod i adnabod pobl y pentref a dechrau teimlo ysbryd y tymor. Mae bwyta cacen panettone ag yfed prosecco yn boblogaidd iawn yma cyn y Nadolig - mor bwysig taw enw cyffredin y parti bach ag aperitivi Nadoligaidd yw panettonata. Mae bron bob swydd a chymdeithas yn paratoi panettonata ar gyfer ei aelodau.

Mewn llawer o'r corneli mae torchau Adfent a chreche, sef presepi, gyda chymeriadau clasurol y stori Nadolig. Mae rhai pentrefi yn enwog am gynhyrchu creche byw, presepi viventi, gydag anifeiliaid go iawn ag oedolyn a phlant gyda gwisg arbennig. Rhaid cofio gwisgo dillad cynnes achos mae hyn yn digwydd tu allan gyda'r nos. Digwyddiad pwysig arall yw Offeren y Nadolig am hanner nos a'r cinio Nadolig mawr gyda'r teulu.

Wrth gwrs mae llawer o siopau a gormod o fasnachu yma hefyd. Mae'n well gyda fi canolbwyntio ar sylwedd y Nadolig a chreu atgofion arbennig gyda ffrindiau a theulu.

Nadolig llawen i chi gyd!

## Traddodiad Gwahanol

gan Sara Jones



Blwyddyn newydd Sinhala a Tamil (aluth awurudu)

Byddaf yn dathlu'r Nadolig gyda fy nheulu ymhen ychydig wythnosau. Ond pan oeddwn i'n blentyn roedd pethau'n eithaf gwahanol oherwydd nad oedd fy nheulu'n dathlu'r Nadolig gan ein bod ni'n Fwdhyddion. Mae mwyafrif y boblogaeth yn Srilanka yn Fwdhyddion. Mae tua 10% yn Gristnogion.

Felly, beth wnaethon ni ei ddathlu? Roeddwn ni'n dathlu blwyddyn newydd Sinhala a Thamil ym mis Ebrill bob blwyddyn. Mae'r union ddyddiad yn cael ei benderfynu gan astrolegyddion trwy weithio allan symudiad planedau yn y gofod. Fel arfer mae'n digwydd rhwng y 12fed a'r 15fed o Ebrill. Yn ystod y dyddiau hyn mae amseroedd ffafriol i ymprydio, cael cawod, cynnau tanau, coginio, cyfnewid anrhegion ac ati. Fel arfer cyhoeddir yr



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

amseroedd yn y calendr fel bod pawb yn gwybod pryd i ddathlu pob gweithgaredd.

Am wythnosau cyn y dyddiau mae pawb yn paratoi yn union fel rydyn ni'n ei wneud yma ar gyfer y Nadolig. Mae'r siopau'n llawn dillad, anrhegion, bwyd a melysion. Hefyd mae ffrwydrad o gnydau ffrwythau a llysiau yn y gwanwyn. Mae llawer o fyrbrydau melys yn cael eu gwneud gyda blawd reis, mêl palmwydd, codlysiau, llaeth cnau coco ac olew.

Roedd llawer o fwyd melys yn cael ei wneud gartref pan oeddwn i'n ifanc, ac roedd yn gyffrous gwneud hynny gyda Mam. Ond nawr gan fod menywod yn gweithio does neb yn gwneud hyn. Gallwch brynu popeth wedi'i wneud yn barod gan werthwyr stryd.

Ni chaiff unrhyw anifeiliaid eu lladd ar yr adeg hon, hyd yn oed pysgod.

Ar y diwrnod ar ôl y cyfnod byr o ymprydio, mae'r dathliadau'n dechrau. Mae llaeth yn cael ei ferwi ar dân agored nes ei fod yn gorlifo, symbol o ddigonolrwydd. Yna mae reis llaeth yn cael ei goginio. Reis a llysiau yn bennaf yw cinio a physgod a brynwyd ac a pharatowyd ymlaen llaw.



Ar ôl cinio mae pobl yn ymweld â ffrindiau, yn chwarae gemau, tu fewn a thu allan, gan fod y tywydd yn gynnes. Mae llawer o bobl yn ymweld â'r Deml. Elfen bwysig iawn ô'r Ŵyl yw cyfnewid anrhegion. Mae hyn yn un peth sy'n debyg i'r Nadolig yma yng Nghymru. Yn ystod y dydd bydd pob cartref yn llenwi plât o fwyd sy'n cynnwys reis llaeth, taffi llaeth, amrywiol pethau melys wedi'u gwneud â blawd reis, mêl palmwydd, chodlysiau, a bananas. Caiff platiau eu rhannu rhwng y cymdogion. Mae plant yn derbyn teganau a dillad newydd.



Yn y pentrefi mae cerddoriaeth yn cael ei chwarae ac mae pobl yn dawnsio ac yn cynnal cystadlaethau. Yn debyg iawn i dymor y Nadolig yma yng Nghymru, mae pawb yn llawen, yn elusengar ac yn hapus.

## Nadolig a'r A470

gan Mark Rudman



Dw i wedi bod yn gyfarwydd â'r ffordd hon ers deugain mlynedd, ar ôl cwrdd â fy ngwraig. Y dyddiau hyn dan ni'n byw yn y gogledd ond mae ei theulu hi yn y de. Wrth i bawb heneiddio, mae'n rhaid i'r teithiau ar hyd y ffordd ddigwydd yn fwy aml. Mae'r ffordd mor bwysig i hunaniaeth Gymreig ac i Gymreictod ac mae llawer o ganeuon wedi'u hysgrifennu amdani. Mae'n ymddangos bod ganddo fo hyd yn oed mwy o ystyr dros y Nadolig, ac yn enwedig i mi hefyd. Dw i wrth fy modd â'r A470.

Rhwng Gwynedd a'r Bannau Brycheiniog, dan ni'n mynd trwy "chwarter gwag" Powys: chwarter gwag yn ôl Mike Parker ("Real Powys" 2011). Dyma'r sir fwyaf efo'r nifer lleiaf o bobl (ond llawer o ysbrydion?). Yn ystod y Nadolig mae'n dŵad yn fwy bywiog. Bob blwyddyn dw i'n mwynhau'r goleuadau Nadoligaidd sy'n addurno'r holl bentrefi ar hyd y ffordd.

Nid oes llawer o oriau o olau dydd yr adeg hon o'r flwyddyn. Felly, dw i'n cynllunio'r daith er mwyn i mi allu gweld Mallwyd, Commins Coch, Cemaes, Llanbrynmair, Talerddig, Carno, Caersws, Llangurig, Rhaeadr Gwy, Llanfair ym Muallt, Erwyd ac yn y blaen, efo'u goleuadau gorau. Mae'n gysur gweld bod rhai yr un fath bob blwyddyn, a phleser gweld rhywbeth newydd. Dw i'n mwynhau yn arbennig gweld y tractorau addurnedig wrth ymyl y ffordd. Mae'r math yma o beth yn codi'r ysbryd yn fawr iawn.

Pan dwi'n pasio trwy rai o'r lleoedd hyn, dwi'n gweld gorsafoedd rheilffordd sydd wedi cau ers toriadau creulon Dr Beeching yn 1963. Dyma'r flwyddyn nes i ymweld â Chymru am y tro cyntaf, blynyddoedd llawer cyn i mi sylweddoli y byddwn i'n symud i fyw yma. Dw i wedi teimlo'r hiraeth ers hynny. Dw i'n dathlu'r gorsafoedd sy'n dal ar agor, ond mae'r rhai sydd ar gau yn gwneud i mi feddwl am straeon ysbrydion y Nadolig. Efallai bod y trenau

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ysbrydol yn atgofion o fywydau pobl a fu'n byw, yn gweithio ac yn marw wrth ymyl y traciau dros dwy ganrif.

Ar ba bynnag ffordd dach chi'n gyrru - Nadolig Llawen.

## Mae clustiau gan gloddiau a llygaid gan berthi

gan Felicity Cleaves

'Peidiwch â bod yn ffôl', dw i'n clywed chi'n dweud. 'Does dim clustiau gan gloddiau a does dim llygaid gan berthi.' Ond beth os dweda wrthych, taw fi yw llygaid a chlustiau'r cloddiau a pherthi. Dw i'n dychmygu y byddech chi'n dweud 'Beth ydych chi? Neu pwy ydych chi?'

Ydych chi'n hoffi dirgelwch? Ond nid rhywbeth gydag ysbrydion neu ddim byd i'ch dychryn chi. Mwy fel pos. Bydda i'n dweud wrthoch chi rhai straeon a rhai ffeithiau amdana i. Efallai byddech yn gallu dyfalu'r ateb i fy mhos.

I ddechrau pan fyddwch chi allan yn yr awyr agored, yn yr ardd, yn y parc, yn y goedwig, neu hyd yn oed yn y stryd, efallai y byddwch yn fy ngweld neu yn fy nghlywed i. A dweud y gwir, mwy na thebyg y bydda i'n eich clywed chi'n gyntaf. Nawr, dw i'n gallu canu. Weithiau mae fy nghân yn swnio'n drist ond yn y gaeaf mae fy nghân yn bertach.



Ond pan fyddwn i'n eich clywed chi yn chwarae tu allan byddech chi'n gweiddi. Pam ydych chi'n gweiddi? Ambell waith, ar ôl llawer o weiddi dw i'n clywed rhywun yn llefain ac wedyn dw i'n teimlo'n drist. Wrth gwrs, weithiau clywaf i floeddiadau o chwerthin a dw i eisiau gwybod beth sydd mor ddoniol. Y tro nesaf dach chi du allan yn enwedig yn yr hydref neu'r gaeaf trïwch fod yn dawel. Efallai wedyn byddwch chi'n gallu clywed fy nghân.

Oes gyda chi unrhyw syniad eto? Peidiwch â phoeni! Dyma gliw arall.

Ro'n i'n mwynhau fy milltir sgwâr yn y goedwig ddoe pan gyrhaeddodd gwpl o bobl. Roedden nhw'n dilyn y llwybr cyhoeddus. Ro'n i wedi eu gweld nhw yn gynharach. Roedden nhw'n gwylio criw o wiwerod yn gwneud acrobateg ymhlith y coed a heb fy ngweld.

Nawr gwnaeth un ohonyn nhw sylwi arna i. Neidiaf yn nes a rhoi fy mhen ar un ochr. Dyn ni'n edrych ar ein gilydd. Roedd yn teimlo fel amser hir, ond dim ond ychydig funudau oedd hi. Oherwydd bod nhw'n llonydd ro'n i'n hapus i fod yn agos atyn nhw. Bron i chi feddwl bod cysylltiad rhyngom ni. Symudon nhw a thorrodd yr hud. Dyma oedd yr hud yn torri oherwydd symudon nhw. Dim ond yn araf a dweud y gwir ond digon i wneud i mi neidio yn ôl ychydig. Ond roeddwn i'n dal yn ddigon agos iddyn nhw allu tynnu fy llun.

Tybed beth fyddan nhw'n ei wneud gyda llun? Efallai byddan nhw'n creu cerdyn Nadolig!

Dyna'r ail gliw.



Dw i'n siŵr eich bod chi'n gwybod yr ateb erbyn hyn. Os felly, beth am drio tynnu llun ohonof i. Ond byddwch yn ofalus oherwydd mae gen i rywbeth diddorol i rannu gyda chi.

Mae fy stori yn mynd yn ôl am ganrifoedd a hefyd fy llysenw. Mae rhai pobl yn dweud i mi fod yno pan gafodd Iesu ei ladd ar y groes a staenion ni gyda smotiau o'i waed. Ond dw i ddim yn hollol siŵr am hynny. Ond mae'n draddodiad da. A dweud y gwir dw i'n gyfeillgar a phan fyddwch chi'n palu'r ardd neu gicio'r dail yn y parc dw i'n llygaid i gyd i weld os oes mwydyn neu drychfil i fwyta.

Gawn i ofyn cwestiwn i chi? Dychmygwch fy arlunio i. Pa liwiau ydych chi'n dewis? Gadewch i mi ddyfalu.

Du - am fy llygaid a fy nghoesau hir

Brown - am fy nghefn a fy adenydd

Gwyn - am y plu dan fy nghorff a fy nghynffon

Oren - am fy wyneb, fy ngwddw a fy bron.

Oren? Oren?

Dach chi'n siŵr?' Dw i'n clywed chi'n ofyn.

Edrychwch yn ofalus!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Mae rhaid i chi gyfaddef, mae'r fy mron yn fwy oren na choch.

'Ond Robin Goch ydych chi nid Robin Oren,' meddwch chi.



Wel ia.

Dyma esboniad.

Amser maith yn ôl doedd dim gair am fy lliw yn Saesneg neu yn Gymraeg. Byddai coch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pinc, porffor ac oren. Nid tan y drydedd ganrif ar ddeg roedd oren yn cael ei ddefnyddio yn Saesneg a, nes ymlaen, yn Gymraeg. Erbyn hyn ro'n i wedi bod yn canu i warchod fy nhiriogaeth am ganrifoedd. Nid fi, yn bersonol, wrth gwrs dych chi'n deall, ond fy hynafiaid.

Mwynhewch fy arlunio ac efallai byddech chi'n fy nghynnwys i ar eich cerdyn Nadolig gydag amlen yn fy mhig.

Er mwyn dyn! Pam ydych chi'n chwarae postman?

Wel, yn oes Victoria ddechreuodd y gwasanaeth post dosbarthu o ddrws i ddrws ac roedd postmyn yn arfer gwisgo gwasgod a chot goch. Gwnaeth y bobl eu galw nhw'n Robin Postman. Ar yr un pryd roedd y cardiau Nadolig yn dod yn boblogaidd ac roedd eu dyluniadau yn cyd-fynd â'r cysylltiad Robin Postman. Traddodiad sy wedi parhau hyd at heddiw.

Dyna fy stori. O leiaf, rhan ohono.

Sut ydw i'n gwybod y pethau hyn? Byddech chi'n synnu beth dw i'n ei glywed pan dw i'n eistedd ar fy nyth yn y cloddiau neu beth dw i'n gweld pan dw i'n clwydo ar frigyn yn y perthi.

Gan mai fi yw eich ffrind ni fyddwn yn ailadrodd yr hyn a ddwedwch am rywun arall na'r hyn y mae rhywun yn ei ddweud amdanoch.

Cofiwch pan fyddwch chi'n meddwl am ddweud rhywbeth drwg am rywun neu anafu rhywun arall, mae clustiau gan gloddiau a llygaid gan berthi!

## Nadolig Cerddorol

Sarah Price



Dw i'n byw yng ngogledd Sir Benfro a dw i'n hoff iawn o gerddoriaeth. Dw i'n dod o Loegr yn wreiddiol felly dw i'n gwneud gwersi Cymraeg ar Zoom gyda Dysgu Cymraeg Sir Benfro. Achos dw i'n dysgu Cymraeg a dw i'n hoffi canu, dw i'n aelod côr Parti Dysgu Cymraeg Sir Benfro ac yn gallu ymarfer fy Nghymraeg tu fas i'r dosbarth. Hefyd, dw i'n aelod o grŵp bach 'acappella' (canu heb gyfeiliant) o'r enw 'Barnhowlers' sy'n canu yn Saesneg ac weithiau yn y Gymraeg. Rhaid i fi ddweud bod Barnhowlers ddim yn udo ('howl'), ond ro'n ni'n arfer ymarfer mewn sgubor ar un pryd ac mae'r enw wedi dod o hynny.

Fel arfer, mae'r Nadolig yn brysur iawn i gorau. Mae Parti Dysgu Cymraeg a Barnhowlers yn dechrau meddwl am y Nadolig ar ddiwedd mis Medi a dyn ni'n dechrau ymarfer caneuon Nadolig ar ddiwedd mis Hydref. Mae sawl 'gigs' Nadolig gyda'r ddau gôr yn Rhagfyr ac, yn aml, dyn ni'n codi arian at elusen. Er enghraifft, mae Parti Dysgu Cymraeg yn gwneud 'gig' i godi arian am Adam's Bucketful of Hope Cancer Support Centre ar y 12fed o Ragfyr yn Aberllydan ac mae Barnhowlers yn canu yn Neuadd y Dre yn Abergwaun ar y 18fed o Ragfyr i godi arian am Greenacres Rescue, elusen sy'n achub anifeiliaid. Dyn ni'n canu cymysgedd o ganeuon Nadolig fel Rwdolff y Carw Trwyn-goch/Rudolf the Red Nosed Reindeer a Nadolig Gwyn/White Christmas yn ogystal â charolau traddodiadol.

Roedd fy Mam yn athrawes cerddoriaeth, felly roedd cerddoriaeth yn rhan bwysig o'r Nadolig pan o'n i'n blentyn. Dw i mor hapus bod cerddoriaeth yn dal i fod yn rhan bwysig o fy Nadolig nawr, yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Y Nadolig - Hwyl, neu Beidio?

gan Liz Rosser



Fel plentyn dw i'n gallu cofio pan brynodd y teulu goeden Nadolig go iawn. Roedd hi dros chwe throedfedd mewn uchder a ro'n ni i gyd yn rhoi canhwyllau arni. Ond beth oedd y pwynt?

Do'n ni ddim yn gallu goleuo'r canhwyllau rhag ofn byddai 'r goeden yn mynd ar dân!

R'on ni'n arfer hongian arian siocled ar y canghennau. Roedd rheolau llym,

"Dim ond bwyta un ar y tro AR ÔL pryd o fwyd". Wel do'n i erioed wedi bwyta un ar y tro! Roedd yn llawer mwy o hwyl orlenwi fy ngheg nes y byddai'r siocled cynnes yn llifo lawr ochrau fy wyneb a do'n i ddim yn gallu anadlu!

Dylai agor anrhegion wedi bod yn hwyl ond roedd rhaid i ni arbed y papur lliwgar a rhoi e i un ochr i baratoi i'w smwddio gyda'r haearn ar gyfer y Nadolig dilynol!

Roedd amser cinio yn llawn cyffro. Byddai twrci enfawr go iawn ar y bwrdd ac ro'n ni 'n aros i fy nhad i'w dorri e. Gallen ni weld y gwres yn codi o'r cig ac roedd yr arogl yn ffantastig! Dw i'n gallu arogli'r cig nawr. A'r llysiau, y tatws a'r grefi!

Y peth "gorau" oedd pan roedd fy mam wedi rhoi gormod o frandi dros y pwdin Nadolig ac aeth y tŷ ar dân, wel bron!

Wrth gwrs 3 o'r gloch oedd yr amser pwysicaf yn ystod y dydd! Amser i dawelu a gwrando ar y frenhines ar y teledu! O diar!

Do'n i ddim yn ffan o'r teulu brenhinol amser maith yn ôl, a dw i ddim wedi newid, a fydda i ddim yn newid chwaith! BYTH!

Ar ôl i ni wrando'n (astud) roedd amser i chwarae Monopoly fel arfer. Do'n i ddim yn hoff o'r gêm ond ro'n i'n eitha' hapus i fynd i'r carchar a gallai pawb arall gweryla dros Park Lane a Mayfair!



Rhyfedd y pethau dw i'n cofio am Ddydd Nadolig!

Cofio'n Gywir neu Beidio?

*Yr unig beth alla i ychwanegu Liz yw – HYMBYG! - Rob!!!*

### Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt

### RHAGLEN 2026

19eg Ionawr - Brian Davies

Y Parc Nad Oedd!

............

16eg Chwefror - Wyn Jenkins

Hanes y Teulu yn America

............

16eg Mawrth - Gwyn Roberts

Tryweryn

............

20ed Ebrill - Martin Jones

Y Cymry a Llundain

............

18ed Mai

I'w gadarnhau

............

15ed Mehefin

Côr Tŷ Tawe

Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Murton am 19,00

Ymunwch â ni i wneud ffrindiau newydd, siarad Cymraeg, cael paned a gwrando ar siaradwyr diddorol

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Beth sy'n bwysig am y Nadolig?

gan Marie Mills



Dw i'n eistedd ar y soffa ar fy mhen fy hun, yn dawel ac yn llonydd, reit ar drothwy tymor prysuraf y flwyddyn, sef, Adfent. Heno bydd cyngerdd flynyddol Band Pres Yarnton - rhywbeth newydd i mi ar ôl dechrau yn y band ym mis Ionawr. Nos yfory bydd gwasanaeth arbennig ar gyfer dechrau Adfent yn eglwys fwyaf y dref. Wedyn daw cyngherddau, gwasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol Nadoligaidd, un ar ôl y llath yn eu tro. Dw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn atynt, ond reit ar y funud yma, mae'r teulu i gyd i ffwrdd yn gwylio gêm bêl-droed, a minnau? Dwi'n mwynhau egwyl o'r bwrlwm arferol.



Mae rhaid imi gyfaddef erbyn i mi gyrraedd fy ugeiniau roedd sôn am Ddydd Nadolig wir yn codi ofn arna i.

Pam? Wel, mae'n anodd dweud, a dweud y gwir.

Fy nghof cynharaf am y Nadolig oedd pan o'n i'n bedair oed. Ar Noswyl Nadolig siaradodd Mam am Seren Bethlehem wrth edrych allan o'r ffenestr ar y sêr yn yr awyr. Nes i ddim deall yn iawn ond roedd yn amlwg yn rhywbeth pwysig iddi. Y bore wedyn codon ni, fy chwaer a minnau, yn llawn cyffro, cyn i'r haul codi, cyn i'r haul hyd yn oed feddwl am godi, mae'n debyg. Dw i'n cofio agor fy hosan Nadolig yn eistedd ar ben y grisiau a Mam yn grac ofnadwy ar ôl cael ei deffro yn gynharach nag oedd hi erioed wedi ei disgwyl.



Doedd Gŵyl fy mhlentyndod ddim yn gyffrous iawn ar y cyfan.

Roedd Mam a Nain yn treulio oriau yn y gegin yn paratoi'r bwyd. Ro'n i'n arfer fod yn llwglyd erbyn i'r cinio fod yn barod. Wedyn roedd Mam a Nain yn ôl yn y gegin yn golchi'r holl lestri brwnt ac yn thacluso. Ro'n ni'n gwylio'r teledu, araith y brenhines, rhywbeth difyr fel Morcombe a Wise, a llawer o bethau eraill. Roedd rhai anrhegion, wrth gwrs, ond bob tro ces i anrheg hollol anaddas oddi wrth Ewythr John. Dydy e ddim yn fy nabod i o gwbl, ro'n i'n meddwl yn drist.

Hefyd roedd yr oedolion i gyd yn ysmygu. Roedd yr aer yn llawn mwg ffiaidd. Pan o'n i'n ddigon hen ro'n i'n dianc i gartref fy ffrind gorau am ryddhad. Heblaw am hi, roedd y Nadolig yn ddiflas ac yn wag. Ond Cristion o'n i erbyn hyn. Genedigaeth Iesu ydy sylfaen y Nadolig, a rhywbeth i'w dathlu ydy genedigaeth, on'd ife? Felly, roedd hi'n hen bryd i mi newid pethau.



Erbyn hyn dw i'n fam i dri o blant yn eu harddegau ac yma mae'r Nadolig yn hollol wahanol. Rydyn ni i gyd yn mynd i wasanaeth yn yr eglwys fore dydd Nadolig. Mae'r plant yn gweini. Fi sy'n gyfrifol am y gerddoriaeth.

Ar ôl hyn mae Mam yn ymweld â ni gydag anrhegion bach i'r plant. Diolch byth rydyn ni i gyd – fi, fy mam, fy ngŵr, a'i rieni - yn cytuno nad oes angen anrhegion i'r oedolion. Mae'r diwrnod yn eitha' syml. Rydyn ni'n bwyta, ond dydy neb yn treulio oriau yn y gegin.

Ar ôl y Nadolig awn ni i aros gyda Mam-gu a Thad-cu am rai ddyddiau. A bob tro awn ni i weld y pantomeim. Hyfryd! Yn yr egwyl awn ni, Mam-gu a minnau, i'r bar am wydraid o win tra bod y dynion yn gofalu am y plant.

Ond i ni, Adfent ydy'r amser prysuraf. Mae calendr Adfent, a wnes i yn y dyddiau cyn priodi, yn ogystal â'r rhai o luniau a beintiais yn fwy diweddar, Snoopy i fy ngŵr, Dafad Siôn i'r ferch hŷn, Clanger Bach i'r mab a Gruffalo i'r ferch iau - yn barod.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Mae pawb yn hoffi pobi, felly bydd mins peis, lebkuchen a ballu yn cael eu gwneud dros yr wythnosau canlynol. Pobais cacen Nadolig yr wythnos diwethaf a phoba'i stollen y penwythnos nesa. Rydyn ni'n brysur yn ymarfer carolau ar gyfer y cyngherddau a gellir clywed y ferch iau yn adrodd ei llinellau yn uchel yn y cawod bob nos. Y Grinch ydy hi yn ei



pherfformiad nesa. Efallai dych chi'n gallu dychmygu beth mae ei brawd yn ei dweud amdani!

Ac mae wastad dadl am bryd mae'r amser gorau i ni osod ac addurno'r goeden. Dw i am aros tan Noswyl Nadolig, dydy'r plant ddim yn cytuno â hynny, ond yn sicr bydd rhaid iddyn nhw aros tan i'r gwyliau ysgol dechrau. Mae'r addurniadau bach fel hen ffrindiau sy'n atgoffa fi o bobl, digwyddiadau a Nadoligau'r gorffennol.

Ond er yr holl fwrlwm a chyffro, y peth pwysicaf oll i mi o hyd ydy mynd i wasanaeth fore dydd Nadolig i ddathlu genedigaeth dyn bach dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl ac yn ddylanwad mawr i'n byd.

## Byd Natur – mis Ionawr 2026

gan Patrick Soper



**Coch y Berllan**

Un o drigolion y DU drwy gydol y flwyddyn yw 'coch y berllan' (neu 'aderyn y berllan'). Dim ond ychydig yn fwy na'r robin goch, mae cochiaid y berllan yn olwg i'w groesawu bob tro. Digamsyniol yw'r gwryw gyda'u bron cochbinc, a'i ben a chynffon du, gyda thipyn o wyn dan ei fol; mae gan y benywod liwiau gwannach, gyda llawer o binc wedi'i gymysgu gyda llwydwyn.

Canrifoedd yn ôl câi'r adar hyn yn eu hystyried yn bla am y difrod roedden nhw yn ei achosi i berllannau, gan fwydo ar flagur a hadau'r coed ffrwyth. Yn ystod teyrnasiad Harri VIII cyflwynwyd Deddf Seneddol San Steffan yn cynnig taliad am bob coch y berllan a gafodd ei ladd yn fwriadol.

Mae'r adar hyn yn adeiladu eu nythod mewn coed neu lwyni mawr. Rhwng mis Mai ac Awst bydd yr iâr yn dodwy hyd at dair nythaid o'i hwyau glas golau, gyda phob nythaid yn cynnwys hanner dwsin o wyau.

Yn dechrau yn y 1970au mae poblogaethau wedi bod yn dirywio, wrth ddatblygiadau tai, ayb, yn disodli ein perllannau a'n coetiroedd.



**Y Barcud Coch**

Mwy na chwe troed yw lled adenydd barcud coch, ac maen nhw'n llywio drwy ogwyddo eu cynffonau fforchog llydan; dyma adar ysglyfaethus godidog o olwg a all lithro yn ddiymdrech fry uwchben ein dolau neu ein trefi, hyd yn oed yng nghrombil y gaeaf.

Dros y DU i gyd roedd barcudiaid yn arfer bod yn olwg cyffredin, canrifoedd yn ôl, yn bwydo ar lygod, llygod Ffrengig a gweddillion y strydoedd cefn. Ond daethon nhw yn llai fesul tipyn drwy gael eu lladd gan fodau dynol yng nghred anghywir eu bod yn fygythiad i adar hel.

Erbyn tua 1900 roedd barcudiaid wedi eu difodi drwy gydol Lloegr, yr Alban ac Iwerddon. Dim ond yng nghanol Cymru yr oedd ychydig bâr yn byw, yn goroesi ar gwningod gan amlaf. Ond ym mis Medi 1953 cyrhaeddodd mycsomatosis y DU ac ymhen dwy flwyddyn yr oedd wedi lladd efallai 99% ein poblogaeth gwningod, ac felly yn chwalu ffynhonnell dda o faeth y barcudiaid.

Beth bynnag, yn ystod y 1990au wnaeth yr RSPB gymryd rhan mewn cais uchelgeisiol i achub y barcud coch. Roedd yr ymdrech yn llwyddiannus dros ben - mae'r adar hyn wedi dychwelyd i bob sir yng Nghymru, bron, rhan

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

helaeth o Loegr, ac mewn ardaloedd yr Alban ac Iwerddon - mewn gwirionedd, dywedir bod erbyn 2023 yr oedd y DU wedi dod yn gartref i 17% poblogaeth barcudiaid coch y byd.

## Ar Goll mewn Goedwig

gan Michael Williams



Roedd adar yn canu ac roedd rhywbeth yn gwynto - rhywbeth fel resin. Roedd fy mhen yn ddolurus. Teimlais y ddaear dan fy stumog a charreg yn pwyso yn ei herbyn. Agorais fy llygaid. Roeddwn yn gorwedd ar lwybr mewn goedwig, ac roedd hi'n amlwg fy mod i wedi cwympo a bwrw fy mhen. Ble'r oeddwn i? Pwy oeddwn i? Roeddwn i wedi anghofio fy enw! Gwaedid lwmp ar fy nhalcen, felly roedd rhaid i mi wneud rhywbeth amdano.

Agorais y sach gefn a thynnu allan botel o ddŵr a phaced o hancesi papur. Glanheais y clwyf; wedyn des i o hyd i git cymorth cyntaf a defnyddiais blastr glynu. Roedd hi'n anodd gwneud hynny heb ddrych. Cymerais ddracht o ddŵr. Wedyn, beth nesaf? Pwy oeddwn i? Edrychais yn fy mhocedi ac fe ddes i o hyd i ddyddiadur. Enw'r perchennog oedd Dafydd Jones. Doeddwn i ddim yn adnabod yr enw hwnnw, na'r cyfeiriad yng Nghaerdydd chwaith. Doedd y geiriau yn y dyddiadur ddim yn gyfarwydd, ond roedd un cliw defnyddiol - dywedodd y cofnod olaf "wedi cyrraedd Dolgellau". Felly efallai rydw i yn yr ardal yna.

Beth arall oedd gyda fi? Ffôn symudol. Roedd yr enwau ynddo ddim yn gyfarwydd chwaith. Dewisais yr enw cyntaf i ffonio ond doedd dim signal gyda fi. Roedd allwedd car gyda fi. Byddai rhaid i mi chwilio am y car, ond i ba gyfeiriad i fynd? Doedd dim haul i fy nhywys i. Cerddais ar lan y llwybr. Roedd coed tal o'm gwmpas a phan gyrhaeddais fforch yn y llwybr doedd dim gorwel i'w weld.


Es i i'r dde. Doedd neb arall ar y llwybr efallai achos bod hi'n oer ac yn gymylog; nid diwrnod delfrydol am daith yn y goedwig. Ar ôl crwydro am tua hanner awr sylweddolais fy mod i wedi dod 'nôl i'r lle ble dechreuais. Bobol bach! Roeddwn i ar goll. Dechreuais unwaith eto ond y tro hwn dewisais y llwybr ar y chwith, o'r diwedd cyrhaeddais faes parcio ger canolfan ymwelydd y goedwig.

Yn anffodus roedd sawl car ynddo. Cerddais o gwmpas a gwthiais y botwm ar yr allwedd i agor y drws dro ar ôl tro. Ar ôl crwydro o gwmpas y maes parcio a mynd heibio tua phymtheg o geir gwelais y golau ar un yn fflachio. Dyna oedd fy nghar! Eisteddais yn y car a meddwl "beth nawr".

Edrychais unwaith eto yn fy mhocedi a ffeindiais ffotograff o fenyw ddeniadol gyda gwallt golau a llygaid glas - ac ar unwaith daeth popeth yn ôl i mi! Hi oedd fy niweddar wraig, Anne. Buodd hi farw'r llynedd, ac rydw i wedi bod yn crwydro dros y wlad ac ailymweld â llefydd roedden ni wedi ymweld â'n gilydd. Roeddwn i'n hapus i ailennill fy nghof. Ffoniais fy mab i ddweud beth oedd wedi digwydd. Atebodd e "dylet ti fynd at y meddyg i gael archwiliad, Nhad". Es i mewn i'r canolfan ymwelydd i gael brechdan a phaned o de.

## Gwyliau

gan Patrick Soper



Yn ôl ym mis Gorffennaf 2006, pan roedden ni'n ugain mlynedd yn ifancach, aethon ni i Ynys Wyth am wythnos. Roedd yn amser da iawn. Gwnaethon ni gerdded bob dydd heblaw am un diwrnod pan roedden ni'n gallu hurio beiciau, a dyna ni'n seiclo ar hyd llwybrau lle'r oedd y rheilffordd yn arfer bod ers talwm.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Ar ddechrau mis Gorffennaf 2025, yn llawn o atgofion hapus, aethon ni yn ôl i'r ynys. Tua 260 milltir yw'r daith o sir Benfro i Portsmouth - ffordd hir. Dyna pam wnaethon ni archebu'r fferi 4 o'r gloch. Mewn gwirionedd, gwnaethon ni gyrraedd y cei yn gynnar dros ben. Ond roedden ni'n lwcus - gallwn ni fynd ar y fferi am 2 o'r gloch, felly roedden ni yn ein gwesty yn Sandown erbyn canol y prynhawn.

Wnaethon ni ddim seiclo'r tro yma, ond roedden ni'n cerdded llawer. Sych a heulog oedd y tywydd, heblaw am un diwrnod pan roedd tipyn bach o law – dyna'r pryd aethon ni i Gastell Carisbrook, lle cafodd y brenin Charles II ei garcharu am sbel cyn iddo gael ei ddienyddio, druan ohono fo.

Diwrnod arall gwnaethon ni gerdded ar hyd llwybr arfordir yr ynys ger Shanklin, wrth edmygu'r chine - gair tafodiaith leol am ddyffryn cul a byr; ar y dydd Sul aethon ni i Haven Street i gael gwibdaith ar drên ager. A hefyd yn ystod yr wythnos aethon ni i felin wynt Bembridge, a thref fach Yarmouth, sy'n lle hyfryd.

Diwrnod gorau imi oedd pan aethon ni i ochr gorllewin yr ynys, sydd yn ardal sialc, ac felly mae'r llwybrau cyhoeddus yn wyn llachar. Gwnaethon ni adael y car mewn maes parcio anffurfiol dawel ger Nodewell i gerdded dros Tennyson Down. Ar y ffordd roedden ni'n mynd heibio llawer o blanhigion llysiau'r gingroen, gyda dwsinau o lindys gwyfyn teigr y benfelen yn bwyta'r dail.

Yn y diwedd daethon ni i safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol roedd wedi bod yn gadarnle milwrol yn erbyn ymosodiad gan y Ffrancwyr yn amser Napoleon ac, yn hwyrach lawer, y Natsïaidd. Ac o'r llecyn yna roedden ni'n gallu edrych i lawr ar The Needles, y darlun eiconig sy'n ymgorffori'r ynys unigryw hon.

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**

Mwynhewch eich hunain a wela i chi yn y flwyddyn newydd!

Pob hwyl - Rob

## Y Ras

gan Jack Rimell



Ras drwy'r coed. Cyflymach!
Cyn iddyn nhw dal di.

Ras cyn i ti cwympo dros yr ymyl.
Os na allet ti gadw i fyny,
Rhaid i ti gwympo.

Mae'r niwl yn tyfu.
Mae'n mynd yn anodd gweld.
Mae'r ffordd ar gau.

A chyn bo hir,
Ti ar goll.
Wedi dy gwmpasu gan goed.

Maen nhw yma,
A'r lleisiau yn tyfu,
Tawelu'r canghennau a dail.

Paid â stopio!
Rhedeg a rhedeg,
Cyflyma, cyflyma!

Calon yn rasio, chwys yn diferu.
Llais wedi'i atal
Ac yn sydyn.

Y byd yn cwympo yn dawel
A does dim byd yn symud,
dim hyd yn oed dy galon.

**Cefndir**

Yr ysbrydoliaeth oedd "The things we don't see" gan Savannah Brown. Cafodd Jack ei syfrdanu gan un bennod pan mae'r prif gymeriad yn crwydro trwy goedwig ac roedd ei hunllefau'n edrych fel bod nhw'n dal i fyny efo hi. Mae Jack yn dweud bod Savannah Brown yn fardd da iawn ac yn ysgrifennu straeon dirgel. Roedd Jack wir yn llawn ofn am y prif gymeriad yn y diwedd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

# Wil Ifan, Bardd, Gweinidog, Archdderwydd, Heddychwr

gan Richard Cleaves




Trwy'r Hydref mae'r Caeau'r Bont Newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Newbridge Fields) wedi bod mor hyfryd, gyda'r afon mor lân, coed mor lliwgar, a hanes mor ddiddorol. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yma yn 1948. Yr oedd y Maes a'r Pafiliwn un ochr yr Afon Ogwr, a Cylch Cerrig yr Orsedd newydd sbon yr ochr arall. Erbyn heddiw mae 'na rywbeth hudolus am hen Gylch yr Orsedd. Dyn lleol oedd yr Archdderwydd, Wil Ifan a oedd yn arwain y seremonïau o'r cerrig mân yng nghanol y cylch. Canrif yn ôl, yn 1925, enillodd y Goron am y drydedd tro gyda'r Bryddest, Bro fy Mebyd. Yr oedd o'n arloesi'r byd barddoniaeth Cymraeg gyda cherdd a oedd i gyd yn y mesur rhydd, sef verse libre am y tro cyntaf erioed.

Bardd, dramodydd, gweinidog, colofnydd yn y Western Mail oedd William Evans, neu Wil Ifan. Dwy flynedd ar ôl Eisteddfod Pen-y-bont ysgrifennwyd colofn i ddathlu traddodiad yr Orsedd, ac yn arbennig y Cylch Cerrig. Dyma weledigaeth yr Orsedd yn ôl Wil Ifan (cyfieithwyd o'r Saesneg gan Robin Samuel),

*Cylch mewn cae agored yn yr awyr iach, lle ni wrthodir mynediad i neb. Cydnabyddiaeth o Dduw lle nad oes yr un addolwr gwylaidd yn cael eu gwrthod.*

*Cleddyf mewn gwain sy'n cyhoeddi heddwch. Cynulliad o wragedd a gwŷr, mewn gwisgoedd o liwiau gwahanol sy'n datgan eu diddordeb yng nghelfyddyd amrywiol eu gwlad.*

Wil Ifan, 'Iolo Morgannwg' yn Here and There (Western Mail and Echo), 37-38, 5 Rhagfyr 1950.

Yr oedd bron pawb wedi anghofio Wil Ifan tan eleni. Ym Mis Hydref gawsom ni diwrnod i ddathlu Wil Ifan. Dechreuon du allan ei hen dŷ ar waelod Park Street pan oedd Myrddin ap Dafydd, cyn Archdderwydd, yn dadorchuddio'r plac glas Cymraeg. Yr oedd y Maer, Ian Spiller, yn siarad wedyn ac yn esbonio bod Cyngor y Dref yn falch i gael y cyfle i wneud cywiriad ar ôl roi plac uniaith Saesneg yn gyntaf. Yr oedd y Maer yn esbonio ar ôl y profiad hwn bydd y Cyngor yn bwriadu defnyddio placiau dwyieithog yn y dyfodol.






Myrddin ap Dafydd, Siân (nith) Sheila (wyres) Richard (ŵyr) Maer Ian Spiller

Yr oedd o, Myrddin ap Dafydd, a phedwar o deulu Wil Ifan wedi cerdded i'r Cylch Cerrig ac yn ôl i Neuadd y Tabernacl. Roedd Myrddin ap Dafydd yn cael sgwrs gyda Mari George am fywyd Wil Ifan, ac wedyn gyda Jane Harries a oedd wedi cael ei derbyn i'r Orsedd eleni yn yr Eisteddfod yn Wrecsam am ei gwaith dros heddwch.

Ar ôl cinio yr oedd Myrddin yn sgwrsio am egwyddorion yr Orsedd gan ganolbwyntio ar y cwestiwn sydd wedi cael ei ofyn llawer o weithiau gan Wil Ifan pan oedd o'n Archdderwydd . A Oes Heddwch? Ar ôl gramadeg dyn ni i gyd yn dysgu, baswn ni'n disgwyl yr ateb naill 'Oes' neu 'Nag oes'. Ac yn drist yn ein byd heddiw 'Nag oes' yw'r unig ateb sy'n bosibl. Ond dydy pawb sydd yn y seremonïau ddim yn gweiddi'r ateb. Yr oedd wedi bod yn bwerus yn Wrecsam i glywed Mererid Hopwood, a oedd wedi anfon neges atom ni am y diwrnod, yn esbonio. Gwahoddiad nid i ateb ond i ymateb. Dyna pam dyn ni i gyd yn gweiddi 'Heddwch'. Dyn ni'n ymrwymo i weithio dros heddwch, dyn ni'n addo gweithio fel tangnefeddwyr.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Roedd y diwrnod yn dod i'r ben gyda sgwrs gan Jên Davies am arddangosfa Merched y Wawr.

Roedd plant o Ysgol Bro Ogwr wedi ysgrifennu cerddi ac roedden nhw'n derbyn tystysgrif efo egwyddorion hollbwysig yr Orsedd, Y Gwir yn Erbyn y Byd; Cariad, Cyfiawnder, Gwirionedd. Geiriau, wrth gwrs gan Iolo Morgannwg a oedd yn byw yma yng Nghefn Cribwr pan oedd o'n perswadio'r pwyllgor arbennig i gynnal yr Orsedd yn yr Eisteddfod yng Nghaerfyrddin yn 1819. Ac yn 2026 byddwn ni'n dathlu daucanmlwyddiant marwolaeth Iolo Morgannwg gyda'r Gymdeithas Hanes Bro Ogwr a'r Cefn Gwyrdd, Cefn Cribwr.

Diolch i bawb am ddiwrnod mor arbennig, i Dŷ San Ioan am fenthyg penddelw Wil Ifan ac i'r Llyfrgell Awen Pen-y-bont am fenthyca mwy nac ugain o'r llyfrau Wil Ifan.

Ond Wil Ifan sy'n cael y gair olaf. Pan mae popeth yn edrych yn anobeithiol, mae 'na obaith. Yn 1948 yr oedd yr afon Ogwr yn ddu oherwydd diwydiant glo. Ond er gwaethaf y ffaith honno yr oedd yr afon yn canu o hyd.

**Ogwr**

'Roedd llwybr hyd lan yr afon,
Ond cerdded drwy'r cae a wnawn i;
Cans gwyddwn am Ogwr druan
Mor ddu oedd ei dyfroedd hi.

Er na welwn mwyach mohoni,
Fe glyw-wn ei si yn y gwynt,
Ac wrth aros i wrando ei chlychau
Curodd fy nghalon yn gynt.

'Roedd ei cherdd mor loyw â grisial
Wnion o dan y coed,
Ac ni thelorodd Eleri
Well cân ar raean erioed.

Yn edifar neseais ati,
Blentyn y llwch a'r glo man;
Er bod creithiau glas ar ei hwyneb
'Chollodd Ogwr mo'i chân.

Wil Ifan, Y Winllan Las, Telynegion Newydd, 1936

Richard Cleaves
Cadeirydd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

## Taith Beicio Velomaritime 2025



**Mikeal ac Yvonne Conq**
**Dydd Mawrth, Mehefin 10**
**O Dieppe i Crasville-La-Rocquefort (39 km)**

Rydym yn y Pays de Caux wrth ochr Arfordir Alabaster, darn 130 km o glogwyni 30 i 100m o uchder dros tua thrigain o ddyffrynnoedd, a elwir yn ffawtiau neu ddyffrynnoedd afonydd arfordirol bach. Y prif borthladdoedd yw Dieppe, St. Valery-en-Caux, Fécamp, ac Etretat, mae'r enw Alabaster yn cyfeirio at liw gwyn llaethog dŵr y môr wrth droed y clogwyni uchel.



Erydiad clogwyni

Hynafiaid y Cauchois oedd y Calètes, pobl o'r Galiaid. Rydym yn dysgu bod clogwyni rhanbarth Seine-Maritime yn erydu ac yn cilio 30 i 40cm y flwyddyn. Mae gennym ni gyfarfod â Philippe, twrist beicio gyfeillgar a groesawyd gennym ni yn ein cartref yn Plouguin ddiwedd mis Mai.



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Mae'n gwneud taith o amgylch Ffrainc, daith o fwy na 5,500 km, gan ddilyn arfordiroedd a ffiniau Ffrainc! Rydym yn cwrdd ag ef yn Longueil, pentref 20 km i'r de o Dieppe; mae mor frwdfrydig â ni! Mae gan bawb eu her eu hunain: mae ei un ef yn athletaidd iawn, gan ei fod yn cyflawni bron 100 km y dydd!



Buwch Normandi

Yna rydym yn sgwrsio â gwraig fferm 68 oed sy'n dal i weithio. Mae hi'n weddw ond mae hi'n parhau i helpu ei mab, sy'n ffermio 200 hectar, gan gynnwys 20 hectar o lin, grawnfwydydd, betys siwgr, a 200 o wartheg Charolais. Rydym yn edmygu'r caeau llin sy'n blodeuo ym mis Mehefin. Mae'r cynhyrchiant hwn yn tyfu yn Normandi.

Dyma dref fach Crasville-La-Rocquefort, ar y llwybr beicio llin, lle rydym yn aros heno, gyda Karine, athrawes chwaraeon, a Valérie, nyrs. Croeso cynnes iawn eto!

**Dydd Mercher, Mehefin 11**
**O Crasville i Fecamp (55 km)**



Pentre Veules les Roses

Rydym yn anelu at Veules-Les-Roses. I gyrraedd yno, rydym yn dilyn y ffordd gymunedol a rennir 20 km, sydd â chynnydd sylweddol mewn uchder. Mae'n ddiwrnod marchnad, felly rydym yn gadael ein beiciau ger yr eglwys ac yn cerdded ar hyd y brif stryd brysur. Wedi'i leoli mewn dyffryn sy'n arwain at y môr, mae Veules-Les-Roses yn enwog fel un o'r "pentrefi harddaf yn Ffrainc." Mae taith gerdded swynol yn cynnig golygfeydd fel cerdyn post gyda'i strydoedd wedi'u leinio â blodau a'i thai hardd wedi'u lleoli ar hyd yr afon leiaf yn Ffrainc, y Veules, 1,149m. Ar un adeg roedd un ar ddeg o felinau. Dim ond pedair sydd ar ôl! Mae eglwys Saint-Martin yn heneb hanesyddol o'r 15fed ganrif, mae'r pentref yn parhau i fod yn fan gwyliau i lawer o artistiaid. Daeth Victor Hugo yma i fyfyrio ac ysgrifennu.



Pentre Veules les Roses

Yn ystod ein picnic yn Saint-Valéry-en-Caux, fe wnaethon ni edmygu tŷ Henri IV, sy'n dyddio o 1540, daeth dau wyliwr yn gyfaill i ni. Roedden nhw hefyd yn feicwyr dyddiol, daeth Maer Tref gyfagos atom, roedd am hyrwyddo'r defnydd o feiciau yn ei ranbarth. Mae'n ein cynghori i ddilyn y Route du Lin, ymhellach i mewn i'r tir, ond rydym yn parhau ar y Vélomaritime a threfi arfordirol Veulettes-sur-Mer a St Martin-aux-Buneaux. logwyni



Clogwyni Calch

Mae'r tirwedd yn cael ei nodweddu gan y valleuses, hynny yw dyffrynnoedd dwfn sy'n torri i mewn i wal glogwyn trawiadol 100m o uchder Arfordir Alabaster. Mae'r enw hwn yn cyfeirio at y lliw gwyn llaethog wrth droed y clogwyni uchel pan fydd y sialc yn hydoddi.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Gallwn weld gorsaf bŵer niwclear Paluel a'i phedwar adweithydd o bell. Ar ôl dringfeydd serth y diwrnod, rydym yn mwynhau disgyniad hardd gyda chwymp o 100 metr dros 3 cilomedr. Pleser mawr oedd rhuthro ymlaen yn yr heulwen! Dyma ni yn Fécamp, sydd yn borthladd pwysig ac yn brifddinas pysgota penfras ers y 18fed ganrif.

Er bod Pascale yn brysur gyda'i gwaith, mae hi wedi cynnig lle i ni aros. Mae hi'n ymuno â ni, ac rydym yn dod yn ffrindiau ar unwaith. Cysur wir ar ôl ymdrechion y diwrnod !

**Geirfa**

**Cyngerdd Carolau**

Gwaith caib a rhaw - the groundworks
Llyfryn - booklet
Cynulleidfa - congregation
Ar bigau drain - on tenterhooks
Llain awyr - runway
Cyfraniad - contribution

**Diwrnod Santes Dwynwen**

Tynnu sylw - to attract someone's attention
Cefnfor - ocean
Cyflawn - complete
Heulwen - sunshine
Blinedig - tired
Lleddfu - to soothe
Gofid - fears
Enaid coll - lost spirit

**Cymdeithas Hanes**
Crafu pennau - to scratch heads
Datgelu - to reveal
Gorchymyn - to order
Gweddill - the rest (of us)
Llawn dop - full to the brim

**Nadolig**

Cyffro - excitement
Ychydig yn ddiweddarach - a bit later

**Adrian Pugh**
Wyrion - grandchildren
Ar wasgar - scattered around (the world)

**Nadolig Arbennig**
Arddegau - teens
Perthnasau - relations
Hudolus - magical

**Cyfarchion Nadolig 2025**
Am newid - for a change
Archebu - to order
Yn ogystal â - as well as
Gweithgareddau - activities

**Vicky Bowes**
Padlfwrdd - paddleboard
Morfil - whale
Morlo - seal

**Nadolig hapus plentyndod**
Darganfod - to discover
Helfa drysor - treasure hunt
Datrys - to solve
Modrwy insel aur - gold signet ring
Blaenllythyren - capital letter
Porffor - purple
Dyfalu - to guess

**Nadolig yn Ticino**
Swistir - Switzerland
Talaith - state
Tafodiaith - dialect
Traddodiad - tradition
Arferiad - custom
Addurno - to decorate
Torch - wreath
Masnachu - marketing

**Traddodiad gwahannol**
Bwdhyddion - buddhist
Astrolegydd - astrologist
Gofod - space
Ymprydio - to fast
Gweithgaredd - activity
Melysion - sweet things
Ffrwydriad - an explosion
Cnwd - crop
Byrbryd - snack
Codlys - legumes
Dathliad - celebration
Gorlifo - to overflow
Digonolrwydd - sufficiency
Elusengar - charitable

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

**Nadolig a'r A470**
Cyfarwydd - familiar
Hunaniaeeth - identity
Addurnedig - decorative

**Clustiau gan gloddiau**
Cloddiau - ditches
Perthi - hedges
Dirgelwch - mystery
Dyfalu - to guess
Pertach - prettier
Llefain - to cry
Bloedd - a shout
Wiwer - squirrel
Llysenw - nickname
Hud - magic
Palu'r ardd - digging the garden
Mwydyn - worm
Trychfil - insect
Tiriogaeth -territory
Hynafiaid - ancestors
Gwasgod - waistcoat
Clwydo - to roost
Anafu - to injure

**Nadolig cerddorol**
Cyfeiliant - accompaniment
Sgubor - barn
Elusen - charity

**Gwyliau**
Ynys Wyth - the Isle of Wight
Dienyddio - to execute
Trên ager - steam train
Sialc - chalk
Llysiau gingroen - common ragwort
Lindys - caterpillars
Gwyfyn - moth
Teigr y benfelen - the cinnabar moth
Ymgorffori - to personify

**Y Ras**
Cwmpasu - to surround
Atal - to stop
Syfrdanu - to stun
Hunllef - nightmare
Dirgel - mystery

**Wil Ifan**
Cynhalu - to hold (an event)
Hudolus - magical
Pryddest - a long poem
Arloesi - to pioneer
Gwrthod - to refuse
Cydnabyddiaeth - acknowledgement
Gwylaidd - modest, unassuming
Cleddyf - sword
Gwain - sheath
Celfyddyd - craft
Amrywiol - varied
Dadorchuddio - to unveil
Cywiriad - correction
Egwyddorion - principles
Canolbwyntio - to concentrate
Ymrwymo - to commit
Tangnefeddwr - pacifist
Tystysgrif - certificate
Hollbwysig - all important
Penddelw - a bust

**Taith Beicio**
Ffawt - fault (geological)
Llaethog - milky
Brwdfrydig - enthusiastic
Cyflawni - to complete
Grawnfwydydd - cereals
Llin - flax
Cynhyrchiant - product
Swynol - charming
Maer Tref - the Town Mayor
Hyrwyddo - to promote
Hydoddi - to dissolve
Adweithydd - reactor
Rhuthro - to rush
Penfras - cod